**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

CS/NG

26 Ionawr 2023

Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Cyng Richard Lloyd (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers a Dan Rose

Annwyl Syr / Fadam

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 1AF CHWEFROR, 2023** am **1.00 PM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we. Gofynnwyd i siaradwyr cyhoeddus a hoffent gyfarch y Pwyllgor yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

3 **SYLWADAU HWYR**

4 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 8)

I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 11 Ionawr 2023.

5 **EITEMAU I'W GOHIRIO**

6 **MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

Mae adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) yn amgaeedig.

**ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI) AR GYFER Y PYLLGOR CYNLLUNIO 1 CHWEFROR 2023**

| Rhif yr eitem | Cyfeirnod y Ffeil | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| **Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (C = Cymeradwyaeth, G = Gwrthod)** | | |
| **6.1** | RES/000385/22 - C | Materion a gedwir yn ôl - Cais am uned storio a dosbarthu gyda swyddfeydd ategol, mynedfeydd cysylltiedig, lle parcio ceir, iardiau gwasanaeth, porthdy diogelwch, is-orsaf drydan, cwt pwmpio a gwaith tirlunio yn Llain B, The Airfields, Porth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy (Tudalennau 9 - 24) |
| **6.2** | 063810 - C | Cais llawn - Adeiladu 12 caban gwyliau, derbynfa/swyddfa a gweithdy/storfa gyfarpar ym Mharc Gwledig Llaneurgain, Llaneurgain (Tudalennau 25 - 38) |
| **Materion Cyffredinol** | | |
| **6.3** | 063033 | Cais llawn - Newid defnydd tir ar gyfer gosod carafanau at ddibenion preswyl yn Dollar Park, Bagillt Road, Treffynnon (Tudalennau 39 - 56) |

***Sylwch y gall fod 10 munud o egwyl yn y cyfarfod hwn os yw'n para fwy na dwy awr***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home